**GWAITH Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

**NODYN ODDI WRTH Y PRIF YSGRIFENNYDD**

1. Mae'r nodyn hwn yn nodi rhai argymhellion ar gyfer gweithredu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd.

**<u>Cylch Gwaith a Rhaglen Waith</u>**

2. Caiff cylch gwaith y Pwyllgor ei nodi ym mharagraffau 1-3 o Reol Sefydlog 15, sydd wedi'u hamgáu gyda'r nodyn hwn. Mae'r Rheolau Sefydlog yn rhagdybio y dylai'r Pwyllgor gael rôl strategol eang, ac na ddylai ei waith ddyblygu gwaith y pwyllgorau pwnc, ond yn hytrach ategu eu gwaith, tra'n sicrhau eu bod yn rhoi sylw priodol i agweddau Ewropeaidd ar eu cylchoedd gwaith. Golyga hyn, er enghraifft, na ddylai'r Pwyllgor drafod y Cronfeydd Strwythurol, gan y bydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ymdrin â'r mater hwnnw. Mae'r Rheol Sefydlog hefyd yn awgrymu na fydd angen i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd gyfarfod cyn amled â'r pwyllgorau pwnc, a chredaf ar hyn o bryd y bydd cyfarfod bob pedair i chwe wythnos yn ddigon.
3. Mae'n ofynnol o dan reolau sefydlog i bwyllgorau pwnc baratoi rhaglenni gwaith am gyfnodau o 12 mis neu fwy. Er nad yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yr wyf yn credu y dylai'r Pwyllgor benderfynu yn awr pa faterion y bydd yn disgwyl derbyn papurau arnynt yn y cyfnod tan ddiwedd y flwyddyn galendr hon. Gallwn gynllunio'r gwaith ar gyfer y flwyddyn 2000 yn hwyrach eleni.
4. Wrth lunio'i raglen waith, bydd angen i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad gwerthfawr a gyflwynwyd gan y Grp Strategaeth Ewropeaidd, dan gadeiryddiaeth Hywel Ceri Jones. Mae copïau o'r adroddiad eisoes wedi'u hanfon at aelodau. Yr wyf wedi gofyn bod papur yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod cyntaf hwn, a fydd yn crynhoi argymhellion yr adroddiad ac yn nodi'r hyn sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i'w gweithredu. Yr wyf hefyd wedi gofyn am bapur ar y posibilrwydd o greu Fforwm Cymreig ar Faterion Ewropeaidd er mwyn ei ystyried yn y cyfarfod cyntaf hwn.
5. Yr wyf felly yn cynnig y ddau fater hwn i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ein hail a'n trydydd gyfarfod yn yr hydref:

<u>Medi</u>

- Perthynas y Cynulliad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran materion Ewropeaidd: concordat drafft rhwng Llywodraeth y DU a'r Cynulliad
- Perthynas y Cynulliad â Chanolfan Ewropeaidd Cymru

Hydref

- Trefniadau'r Cynulliad ar gyfer archwilio dogfennau'r UE a deddfwriaeth ddraft
- Gwaith Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau

Tachwedd

- Gwaith Senedd Ewrop a'r Comisiwn
- Goblygiadau ehangu'r Undeb Ewropeaidd i Gymru
- Rhaglen waith y dyfodol

**Cyfranogaeth Aelodau Cymreig Sefydliadau Ewropeaidd**

1. Mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i ASEau Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau "fynychu a siarad gyda chaniatâd y cadeirydd" yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Yr wyf yn cynnig y dylai ein ASEau ac aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau dderbyn y papurau a roir gerbron y Pwyllgor hwn, ac y dylent oll gael hawl sefydlog i siarad yn ein cyfarfodydd. Er nad yw'n ofynnol o dan reolau sefydlog, yr wyf yn awgrymu y dylai aelod Cymreig presennol y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) gael yr un hawliau.
2. Yr wyf hefyd yn cynnig y dylid gofyn i ASEau Cymru ac aelodau ECOSOC a Phwyllgor y Rhanbarthau ddwyn materion neu ddatblygiadau Ewropeaidd a allai fod yn berthnasol i waith y Cynulliad at sylw'r Pwyllgor. Credaf y byddai o fudd i'r Cynulliad pe bai llif cyson o wybodaeth yn cael ei chyfnewid rhwng aelodau'r Cynulliad a'n cynrychiolwyr yn y gwahanol sefydliadau Ewropeaidd. Dylid gofyn iddynt ddweud wrth y clerc ymlaen llaw am faterion y maent am eu codi a darparu nodyn yn crynhoi'r mater i aelodau'r Pwyllgor. Dylai cyfarfodydd gael eu cynnal, os yn bosibl, ar adegau sy'n gyfleus i ASEau Ewropeaidd ac aelodau ECOSOC a Phwyllgor y Rhanarthau.

Casgliad

3. Yr wyf yn gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar y cynigion a nodwyd uchod ac i gytuno y dylai rhaglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol gael ei thrafod yn y cyfarfod fis Tachwedd.
4. Yr wyf hefyd yn gwahodd y Pwyllgor i gytuno y dylai:

i. ASEau Cymru ac aelodau Cymreig ECOSOC a Phwyllgor y Rhanbarthau dderbyn papurau'r Pwyllgor yn gyson ac y dylent gael yr hawl i siarad mewn unrhyw gyfarfod; ac y dylid
ii. Gofyn i ASEau Cymru ac aelodau Cymreig ECOSOC a Phwyllgor y Rhanbarthau adrodd yn gyson i'r Pwyllgor ar ddatblygiadau Ewropeaidd o ddiddordeb i'r Cynulliad.

**Atodiad**

**RHEOL SEFYDLOG 15 - Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

**Teitl a Chylch Gwaith**

15.1 Bydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd, a fydd yn cadw llygad:

(i) ar berthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau yngln ag anghenion Cymru;

(ii) ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig yngln â materion Ewropeaidd;

iii. ar ddulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan roi sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol.

15.2 Bydd y Pwyllgor yn monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru, ac yn sicrhau bod yna gysylltu digonol ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

15.3 Bydd y Pwyllgor yn osgoi dyblygu gwaith pwyllgorau pwnc, ond caiff dynnu sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol. Caiff y Pwyllgor asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc a chyflwyno adroddiad amdano pan fo rhaid.

**Aelodaeth**

15.4 Bydd y Cynulliad yn ethol Ysgrifennydd Cynulliad i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu

cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad a chan ystyried pa mor ddymunol y byddai i bob pwyllgor pwnc gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor. Gall Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y cadeirydd, cânt siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pan gynhelir y rheiny yn gyhoeddus, ond ni chânt bleidleisio. Cyn unrhyw gyfarfod, caiff Aelodau o'r Cynulliad sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw, ond ni chânt bleidleisio. Hefyd, caiff Aelodau ysgrifennu at y cadeirydd a gofyn bod eu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf, a bydd y Cadeirydd yn trefnu i'r cyfryw gyflwyno ddigwydd.

**Adroddiadau**

15.5 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd.